Y Ci Defaid Barus

Cyfrwystra / Amynedd / Penderfyniad

Un noswaith pan oedd y lleuad yn llawn aeth y gwningen i lawr i lan yr afon i bysgota. Roedd hi'n noson braf a chynnes a'r sêr i gyd yn wincio yn yr awyr glir. Ac roedd y lleuad yn werth i'w gweld yn berffaith grwn.

"Rwy'n siŵr y byddai'n dal deagu o bysgod heno", meddai'r gwningen wrthi'i hun. Eisteddai'n hollol lonydd i wylio'r lleuad llawn yn mynd â dod ar wyneb y dŵr. Yn sydyn daeth sŵn o'r coed tu ôl iddi. Sŵn mawr, mawr.

"Pwy sy'n dod rwan, tybed?" gofynnodd.

"Y fi, sydd yma, dy hen ffrind y ci defaid o fferm Tŷ'n y Mynydd," meddai'r ci dan lyfu ei weflau. "Ac mi ydw i yn mynd i dy fwyta di i swper heno."

Dechreudodd y gwningen grynu. Efallai ei fod yn iawn y tro hwn. Droeon roedd y ci defaid wedi ceisio dal y gwningen. Ond roedd yn benderfynol o'i dal y tro hwn.

Cafodd y gwningen syniad wrth edrych ar lun o'r lleuad yn y dŵr.

"Wel yn wir rwyt ti wedi cyrraedd ar adeg anhwylus iawn. Roeddwn i ar fin codi'r darn caws yna o'r dŵr," a phwyntiodd y gwningen at lun y lleuad yn y dŵr.

Gwyddai yn iawn mae hoff fwyd y ci defaid oedd darn o gaws. Byddai'n cael darn o gaws gan ei feistr ar y fferm, yn enwedig pan fyddai wedi bod yn gi da.

"Tyrd â'r wialen bysgota i mi", meddai gan gythru i'r wialen o bawen y wningen fach grynedig. Ond pan dynnodd y wialen o'r dŵr doedd yna ddim byd ar ei blaen dim ond y bachyn pysgota.

"Edrych, beth wyt ti wedi'i wneud", meddai'n sarrug wrth y gwningen fach. "Rydw i wedi colli'r darn caws. Mae o wedi mynd i waelod yr afon."

"Ond" meddai'r gwningen fechan, "mi wela i'r darn caws yng ngwaelod yr afon. Beth am i ti blymio i waelod yr afon ac mi

fyddi di'n sicr o'i gael efo dy bawennau cryfion."
"Ardderchog" meddai'r ci defaid dros y lle, "a heno mi gai gaws a chwningen i swper."
Dyma fo'n neidio i'r afon nes oedd y dŵr yn tasgu i bob cyfeiriad. Hwn oedd cyfle'r gwningen i ddianc. I ffwrdd â hi dros y caeau, i lawr y bryncyn, ar hyd y weirglodd ac i mewn i'w thwll ym môn y clawdd. Bellach roedd hi'n saff. Ond y ci defaid druan. Yr unig beth gafodd o oedd croen gwlyb. Chafodd o ddim caws na chwningen i swper y noson honno.

O Dduw, tybed ydw i weithiau yn blentyn barus? Amen.

✦ Ydych chi'n credu fod y gwningen fach yn gyfrwys?
✦ Sut fyddech chi'n disgrifio'r ci defaid?